YR YSTWYLL 2

ESEIA 62:1-5; SALM 36:5-10;
1 CORINTHIAID 12:1-11; IOAN 2:1-11

● Gweddi agoriadol

Wrth addoli heddiw, fe gofiwn nad oes terfyn ar gariad Duw at ei bobl a'i eglwys. Sonia'r salmydd am gariad Duw yn ymestyn i'r nefoedd, a'i gyfiawnder i ddyfnderau'r moroedd, ac eto mae Duw yn ein bendithio yn unigol â rhoddion ei Ysbryd er mwyn i'w eglwys, ei bobl, fod yn oleuni i'w ogoniant yn y lle hwn.
Dduw Dad, down â'n haberth moliant, a chydag ef wasanaeth ein bywydau drwy'r wythnos sy'n dod. Boed i ni ymadael â'r lle hwn yn gwybod i ni dy gyfarfod di a chael ein bendithio gan dy Ysbryd, i fyw a gweithio i'th ogoniant.

● Moliant

Dduw, mae dy gariad yn cyrraedd entrychion nef,
sut y gallwn aros yn dawel?
Dduw, mae dy gyfiawnder yn sefyll fel y mynydd uchaf,
sut y gallwn aros yn dawel?
Dduw, mae dy farn yn ddyfnach nag unrhyw eigion,
sut y gallwn aros yn dawel?
Dduw, mae dy ras yn llifo fel afon ddiderfyn,
sut y gallwn aros yn dawel?

Sut y gallwn beidio â chyhoeddi dy fawrhydi
o genhedlaeth i genhedlaeth?
Sut y gallwn beidio â chodi llusern dy iachawdwriaeth
i'r holl fyd ei gweld?
Dduw, mae dy gariad yn cyrraedd entrychion nef,
dyrchafwn dy enw nerthol.

● Cyffes

Gweddïwn am hyder
i rannu dy air ag eraill
ac am gyfle i'w gyhoeddi.
Maddau ein harafwch,
ein swildod.

Gweddïwn am ddoethineb
i wybod beth y dylid ei ddweud
a'r adeg i'w ddweud.
Maddau ein tawedogrwydd,
ein hofnusrwydd.

Gweddïwn am wybodaeth
ynghylch llawnder dy ras
a'r parodrwydd i'w fyw.
Maddau ein hanwybodaeth,
ein hunan-ddibyniaeth.

Bydd di yn graidd popeth ydym,
y goleuni y cerddwn wrtho,
y gras y siaradwn drwyddo,
y fendith rydym yn ei rhannu.

● Diolch

Am roddion dy Ysbryd,
yn bresennol ynom
mewn gwybodaeth, dysgeidiaeth,
doethineb, iachâd,
mewn ffydd sy'n gryf,
mewn gair a chân,
diolchwn i ti, Arglwydd.

Defnyddia nhw yn y lle hwn
ac adeilada ni, Arglwydd,
achos yn dy nerth di
trawsnewidir bywydau,
yn dy nerth di
gwneir bywydau yn newydd,
yn dy nerth di
adnewyddir dy eglwys
a dyrchefir dy enw.

Am roddion dy Ysbryd,
yn bresennol ynom,
diolchwn i ti, Arglwydd.